

Gweithgaredd 10 Rhan 2

Taflen adnoddau 1

Taflen sampl Camau Brys Iau

MAE'R ACHOS HWN BELLACH AR GAU; peidiwch ag anfon y llythyr hwn na'r cardiau hyn i ffwrdd ar gyfer yr achos hwn.

Camau Brys Iau



Chwefror 2009

Dangoswch eich cefnogaeth i Ernestina ac Erlinda Serrano Cruz

Allwch chi ddychmygu sut fyddai petai rywun o'ch teulu chi'n cael eu cipio ac nid oeddech yn gallu darganfod lle oeddent neu beth oedd wedi digwydd iddynt? Wel, dyma beth ddigwyddodd i deulu Ernestina ac Erlinda. Darllenwch ymlaen i ddarganfod mwy.

Er mwyn diogelwch y teulu, peidiwch â chynnwys sylwadau gwleidyddol yn eich neges (fel cyfeiriadau at lywodraeth El Salvador). Hefyd, anfonwch negeseuon Cristnogol neu rhai nad ydynt yn grefyddol yn unig – peidiwch ag anfon negeseuon o grefyddau eraill

Ble?

Mae El Salvador yng Nghanolbarth America. Pa mor dda ydych chi'n adnabod Canolbarth America?

A allwch chi enwi unrhyw wledydd eraill sydd ger El Salvador?

A allwch chi enwi'r cefnfor sydd i'r de o El Salvador?

Iaith – Sbaeneg.

(map oddi ar wefan CIA, The World Factbook)



Beth ddigwyddodd?

Ym 1982, yn ystod rhyfel cartref yn El Salvador, cipiwyd Ernestina ac Erlinda gan filwyr. Ar y pryd, dim ond saith a thair blwydd oedd y ddwy. Nid yw teulu'r merched wedi clywed amdanynt na'u gweld ers hynny ac, er mawr dristwch, nid oes ganddynt luniau hyd yn oed i'w hatgoffa am y merched. Roedd yn rhaid i'r teulu aros nes i'r rhyfel orffen cyn iddynt allu gofyn i'r awdurdodau ddarganfod beth a ddigwyddodd iddynt. Aeth eu mam â'r achos i wahanol lysoedd ond hyd yn ni chafwyd archwiliad iawn i mewn iddo. Yn anffodus, bu farw mam Ernestina ac Erlinda yn 2005 heb weld eu merched fyth eto. Mae eu teulu'n dal i alw am archwiliad iawn er mwyn darganfod beth ddigwyddodd i'r merched.

Cefndir

Yn y 1980au roedd *rhyfel cartref* yn El Salvador. Mae rhyfel cartref yn golygu bod pobl o'r un wlad yn ymladd yn erbyn ei gilydd. Yn ystod y rhyfel, 'diflannodd' dros 700 o blant, sy'n golygu eu bod wedi cael eu cymryd i ffwrdd yn groes i'w dymuniad. Rhoddwyd rhai o'r plant mewn cartrefi plant amddifaid a rhoddwyd eraill i'w mabwysiadu yn El Salvador a gwledydd eraill, rhai hyd yn oed mor bell ag Ewrop.

Diolch i grwpiau hawliau dynol yn El Salvador, mae dros 300 o blant a 'ddiflannodd' wedi cael eu darganfod a'u dychwelyd at eu teuluoedd unwaith yn rhagor.

Yn drist iawn, mae'r gweddill yn dal ar goll.

Gweithgaredd 10 Rhan 2

Taflen adnoddau 1 **parhad** Taflen sampl Camau Brys Iau

MAE'R ACHOS HWN BELLACH AR GAU; peidiwch ag anfon y llythyr hwn na'r cardiau hyn i ffwrdd ar gyfer yr achos hwn.

Gallwch chi ddod o hyd i'r geiriau allweddol?

A G W E I	Th R E D U	ARLYWYDD
R R B P	Dd E A R A A	BLODAU
G Rh L P L I	D N R I	DARGANFOD
O B O Y L A	Th E G L	ERLINDA
B L D L I W A N S A W		ERNESTINA
A O A I E Y R T N A		GOBAITH
I E U A I	Th Dd I F H	GWEITHREDU
Th R L I Th R O Y N O LL		HAWLIAU
A D N I L R E A D Y		LLYWODRAETH
L I Y W O D R A E Th W		PLANT
E R O D A V L A S A		SALVADOR

Beth yw eich barn chi?

- Yn eich barn chi, pam mae'n bwysig i ddod o hyd i'r plant a gafodd eu cipio?
- Yn eich barn chi, beth ddylai'r llywodraeth ei wneud i helpu dod o hyd i Ernestina ac Erlinda?
- Yn eich barn chi beth allai ddigwydd pan fo plentyn a ddiflannodd yn cael ei ddychwelyd at y teulu?
- Gweithredwch NAWR!

● gweithredwch! ● gweithredwch! ● gweithredwch! ● gweithredwch!

Gallwch chi helpu teulu Ernestina ac Erlinda mewn tair ffordd:

1. Ysgrifennwch lythyr

Ysgrifennwch lythyr cwrtais at Dwrnai Gwladol El Salvador. Gallech ddweud:

- Mae'n rhaid i'r llywodraeth gynnal archwiliad iawn i ddiflaniad gorfodol Ernestina ac Erlinda Serrano Cruz.
- Dylai'r llywodraeth ddarganfod lle mae Ernestina ac Erlinda yn awr, a rhoi gwybod i'w teulu.
- Mae'n bwysig bod pwy bynnag a'u cipiodd yn cael eu dwyn gerbron cyfiawnder.

Anfonwch eich llythyr at:

Lic. Félix Garrid Safie
Fiscal General de la República
Fiscalía General de la República
Final Calle Oriente y 19
Residencial Primavera
Santa Tecla
La Libertad

2. Anfonwch neges o gefnogaeth at deulu Ernestina ac Erlinda

Cychwyn: Estimada Familia Serrano Cruz/Dear Serrano Cruz family/Annwyl Deulu Serrano Cruz

Neges a awgrymir:

Les acompañamos en sus esfuerzos por encontrar a Ernestina y Erlinda y en el reclamo de justicia por su desaparición. Saludos.

Sy'n golygu: Rydym yn uno gyda chi yn eich ymdrechion i ddod o hyd i Ernestina ac Erlinda ac mewn galw am gyfiawnder dros eu diflaniad.

Iaith: Sbaeneg, Saesneg neu eich iaith eich hunan.

Anfonwch gerdyn crefyddol (Cristnogol) neu gerdyn nad yw'n grefyddol at:

Familia Serrano Cruz
c/o Asociación Pro-Búsqueda de Niñas y Niños Desaparecidos
Urbanización Buenos Aires 1
29 Avenida Norte # 1161
San Salvador EL SALVADOR

Gwybodaeth bwysig

Er diogelwch y teulu, peidiwch â chynnwys sylwadau gwleidyddol yn eich neges (fel cyfeiriadau at Lywodraeth El Salvador). Hefyd, anfonwch negeseuon Cristnogol neu rhai nad ydynt yn grefyddol yn unig – peidiwch ag anfon negeseuon o grefyddau eraill. Cost postio i El Salvador yw 56c am lythyr post awyr. Os ydych yn gwneud blodau ac am eu hanfon fel pecyn bach, bydd hyn yn costio mwy a bydd angen eu pwyso

3. Anfonwch flodyn n'ad fi'n angof.

Rhwng mis Tachwedd 2008 a mis Ionawr 2009, dangosodd plant o Ysgol Amesbury yn Surrey eu cefnogaeth i'r teulu drwy anfon blodau n'ad fi'n angof. Gallech beintio eich n'ad fi'n angof gyda'ch bysedd neu eu gwneud allan o bapur tusw a chynnwys neges fer yn y canol. Efallai y gallech ddweud 'rydym yn meddwl amdanoch.' Gallech wneud blodau allan o bapur ac ysgrifennu eich neges ar y petalau. Hefyd, gallech wneud baner sy'n sillafu'r geiriau gan ddefnyddio blodau papur tusw a'u hanfon gyda'ch negeseuon.

Pam n'ad fi'n angof?

Dewisom y blodyn hwn fel symbol er mwyn dangos nad ydym wedi anghofio Ernestina ac Erlinda. Byddwn yn cofio amdanynt ac yn parhau i ymgrychu iddynt gael eu dychwelyd at eu teulu.

Ymgrych Cardiau Cyfarchion

Mae llawer o blant a phobl ifanc eisoes wedi gweithredu ar rhan Ernestina ac Erlinda. Mae pobl ar hyd a lled y DU wedi bod yn anfon cardiau cyfarchion gyda negeseuon at y teulu – mae'r teulu wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi y negeseuon hyn yn fawr. Drwy weithredu, byddwch yn ymuno â miloedd o bobl sy'n dangos eu defnogaeth i'r merched. Ewch i www.amnesty.org.uk/serranocruz am fwy o wybodaeth.

Amnest Rhyngwladol
DIOGELU DYNOLRYW

Amnest Rhyngwladol, Canolfan Gweithredu Hawliau Dynol, 17-25 New Inn Yard, Llundain EC2A 3EA
Teleffon: 020 7033 1596 Ffacs: 020 7033 1503 E-bost: student@amnesty.org.uk

Gweithgaredd 10 Rhan 2

Taflen adnoddau 2

Effaith gadarnhaol negeseuon

Yn gynnar yn 2009 anfonwyd negeseuon o gefnogaeth oddi wrth blant ac oedolion nifer o wledydd at y teulu Serrano Cruz. Anfonwyd eu cardiau at sefydliad hawliau dynol El Salvador, sef Pro-Búsqueda, a anfonodd y cardiau ymlaen at y teulu. Dyma erthygl a ymddangosodd yng nghylchgrawn Pro-Búsqueda yn hydref 2009. Gallwch rannu hwn gyda'ch myfyrwyr er mwyn amlygu effaith gadarnhaol y gall eu gweithredoedd unedig eu cael.

Cyrhaeddodd y cardiau fesul sachaid o Loegr, Canada, Sbaen a De Corea. Bob wythnos, rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth, roedd y postmon yn cyrraedd â llond sachaid o undod, lliw, gobaith a nerth i'r teulu Serrano Cruz. Gweithiodd dros 25 o wirfoddolwyr ifanc o goleg lleol ar osod dros 5,450 o gardiau mewn trefn.

Roedd gan y mwyafrif o gardiau luniau Nadolig arnynt, yn fawr a bach, gyda dyluniadau wedi eu peintio, colomennod heddych. Ond yn eu plith roedd rhai cardiau arbennig, hardd: cardiau a wnaed gyda llaw gan blant a phobl ifanc cysylltiedig ag AMNEST RHYNGWLADOL. Mae'r cardiau hyn yn arbennig nid yn unig oherwydd eu hansawdd a'u cynllun, ond hefyd oherwydd eu bod yn hadau heddych am fyd newydd, yn tyfu o fewn plant sydd wedi ymrwymo eu hunain i'r frwydr am gyfiawnder, sef brwydr hanfodol ein hamser a'n hoes.

Defnyddiwyd y cardiau hyn mewn modd creadigol iawn gan y gwirfoddolwyr o blith y myfyrwyr : maent yn eu troi'n dail ar goeden yn ystod cyngerdd a drefnwyd gan Pro-Búsqueda ar Ddiwrnod Cenedlaethol Plant a Ddiflannodd, sef 29 Mawrth 2009. Yn ogystal, defnyddiwyd y cardiau i ddylunio murlun trawiadol iawn ar fur swyddfa Pro-Búsqueda.

Am nifer o fisoedd cyrhaeddodd y cardiau swyddfa Pro-Búsqueda, ond un diwrnod ym mis Mai cawsant eu cyflwyno i Suyapa Serrano, sef chwaer Erlinda ac Ernestina, a'r prif dyst yn yr achos. Fe'i synnwyd hi i weld gymaint o gardiau a chardiau Nadolig mor hardd a anfonwyd ati hi a'r teulu Serrano Cruz, a chyda gymaint o frwdfrydedd dechreuodd addurno drws ei thŷ gyda lliw'r cynhesrwydd, y cariad a nerth y miloedd hynny a danfonodd y cardiau, fel rhyw ddydd, ar ôl iddynt gael eu darganfod, bydd Erlinda ac Ernestina yn gwybod bod miloedd ar filoedd o bobl wedi bod yn chwilio amdanynt, ar ôl iddynt gael eu darganfod.



Mural de postales recibidas en Pro-Búsqueda

Uchod Pro-Búsqueda yn arddangos cardiau a anfonwyd at y teulu Serrano Cruz

© Pro-Búsqueda